# Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys

## Adolygiadau cwynion Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu (SCHTh)

## Adroddiad diweddaru'r cyfnod adrodd

## Mis Ebrill i fis Rhagfyr 2024

## Chwarter 3

**Nifer yr adolygiadau a ddaeth i law**

| | Achosion cwynion a gwblhawyd o dan atodlen 3 | Adolygiadau a ddaeth i law | Adolygiadau a ddaeth i law fel cyfran o achosion cwynion | Nifer adolygiadau SCHTh – wedi'u hymchwilio | Nifer adolygiadau SCHTh – heb eu hymchwilio | Nifer Nifer adolygiadau Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu (IOPC) a ddaeth i law – wedi'u hymchwilio | Nifer adolygiadau IOPC – heb eu hymchwilio |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Heddlu Dyfed-Powys** | 277 | 58 | | 0 | 47 | 4 | 7 |
| **Yr un cyfnod y llynedd** | 348 | 48 | | 0 | 38 | 3 | 7 |
| **Heddlu mwyaf tebyg** | 370 | 59 | | 0 | 47 | 5 | 8 |

**Amseroldeb**

Cyfrifir amseroldeb ar ôl cael cais am adolygiad. Bydd gweithiwr achos yr SCHTh yn gwirio dilysrwydd yr adolygiad cyn gofyn am ffeil yr achos gan yr Adran Safonau Proffesiynol. Bydd gan yr Adran Safonau Proffesiynol bum diwrnod gwaith i ddarparu'r ffeiliau achos i'r SCHTh, ac yna cânt eu gwirio a'u hanfon at yr adolygydd annibynnol.

Unwaith y bydd yr adolygydd annibynnol yn dychwelyd yr adolygiad, bydd gweithiwr achos SCHTh yn ystyried y canfyddiadau i gyrraedd ei benderfyniad. Mae ansawdd adolygiadau'n cael ei sicrhau cyn eu hanfon at yr achwynydd.

Mae nifer cyfartalog y dyddiau i gwblhau adolygiad yn llai na'r un cyfnod y llynedd.

| | Heddlu | Yr un cyfnod y llynedd | Cyfartaledd heddlu mwyaf tebyg |
|---|---|---|---|
| **Dyddiau gwaith cyfartalog SCHTh i gwblhau adolygiad** | 17 | 21 | 19 |
| **Dyddiau gwaith cyfartalog Sancus i gwblhau adolygiad** | 8 | / | / |
| **Dyddiau gwaith cyfartalog IOPC i gwblhau adolygiad** | 127 | 146 | 159 |

O’r amser y mae SCHTh yn cyflwyno adolygiad i Sancus, yr amser cyfartalog y mae’n cymryd i’r adolygiad gael ei ddychwelyd yw wyth diwrnod gwaith.

**Adolygiadau a ganfuwyd nad oeddent yn rhesymol ac yn gymesur**

Yn ystod y cyfnod hwn, mae SCHTh wedi cadarnhau naw adolygiad sy’n sylweddol fwy na’r flwyddyn flaenorol ond ychydig o dan gyfartaledd yr heddlu mwyaf tebyg.

| | **Wedi’u hymchwilio** | | | **Heb eu hymchwilio** | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Adolygiadau dilys wedi’u cwblhau | Wedi’u cadarnhau | % sydd wedi’u cadarnhau | Adolygiadau dilys wedi’u cwblhau | Wedi’u cadarnhau | % sydd wedi’u cadarnhau |
| **Heddlu Dyfed-Powys** | 0 | - | Amherthnasol | 49 | 9 | 18.4% |
| **Yr un cyfnod y llynedd** | 0 | - | Amherthnasol | 38 | 3 | 8% |
| **Heddlu mwyaf tebyg** | 0 | - | Amherthnasol | 52 | 10 | 19.2% |

**Rheswm dros adolygiadau wedi’u cadarnhau**

1. ***<u>Cyfeirnod y gŵyn: PCC-23052024-5 — CO/00054/24</u>***
   - Ni ddarparwyd digon o wybodaeth i’r achwynydd i ddeall y rhesymeg dros ddeilliant.
   - Mae angen ystyried a ddylid cofnodi honiad newydd neu honiad ychwanegol.

***<u>Ymateb yr Adran Safonau Proffesiynol</u>***

- Derbyniwyd yr argymhellion a chysylltwyd â’r achwynydd ymhellach i benderfynu a oedd cwyn ychwanegol neu gŵyn newydd.

2. ***<u>Cyfeirnod y gŵyn: PCC-09052024-5 — CO/433/23</u>***
   - Ystyried a oes prosesau ar waith i sicrhau bod ymchwiliadau/achosion yn cael eu trosglwyddo’n briodol pan fydd swyddogion yn ymddeol neu’n gadael y sefydliad.
   - Dylid rhannu deilliant y gŵyn/adolygiad â swyddogion/goruchwyliwr perthnasol yr achos hwn er mwyn rhoi cyfle i fyfyrio ar bwysigrwydd rhoi’r wybodaeth ddiweddaraf i ddioddefwyr/aelodau o’r cyhoedd.
   - Ystyried yr honiad ynghylch y difrod i’r draen ac a ddylid ei gofnodi fel cwyn newydd.

***<u>Ymateb yr Adran Safonau Proffesiynol</u>***

- Ni dderbyniodd yr Adran Safonau Proffesiynol yr argymhellion a wnaed ond gwnaethant roi resymeg fanwl ynghylch pam.
- Systemau ymchwiliad yr heddlu (e.e. digwyddiad Niche) yna bydd hyn yn naturiol yn cael sylw pan fydd swyddog yn ymddeol.
- Yn yr achos hwn, digwyddodd y mater sy’n destun yr honiad cwyn rhwng 2020 a 2021 ac felly mae cyfnod sylweddol wedi mynd heibio ers hynny. Mae’n annhebygol y bydd unrhyw ddysgu sy’n deillio o hyn yn dal i fod yn berthnasol nac yn gymwys ac nid oes dim i awgrymu bod hyn yn fwy na methiant untro. Ar ben hynny, nid yw rhai o’r swyddogion dan sylw yn y

gwasanaeth mwyach. Felly, yn unol â chanllawiau IOPC, nid wyf yn ystyried bod dysgu o'r fath yn rhesymol nac yn gymesur o dan yr amgylchiadau.
- Digwyddodd mater ychwanegol y cwynwyd amdano ar ôl cofnodi'r achos cwyn hwn, felly argymhellwyd i'r achwynydd gyflwyno cwyn newydd.

3. ***Cyfeirnod y gŵyn: PCC-12072024-3 — CO/00902/23***
    - Dylid ailystyried y canfyddiadau ar gyfer honiad 2.
    - Dylid rhannu'r hyn a ddysgwyd o'r achos hwn i sicrhau bod pob swyddog yn cael ei gefnogi trwy gael hyfforddiant ar sut i fod yn ystyriol o drawma.

***Ymateb yr Adran Safonau Proffesiynol***

- Derbyniodd yr Adran Safonau Proffesiynol yr argymhellion a wnaed yn rhannol. Gwnaethant gytuno na ddylai deilliant honiad 2 fod wedi gallu pennu a oedd yn dderbyniol ai peidio.
- O ran yr argymhelliad i rannu dysgu, anghytunodd yr Adran Safonau Proffesiynol bod unrhyw beth i'w ddysgu o'r achos hwn gan y penderfynwyd nad oedd y swyddog a oedd yn destun y gŵyn wedi cyflawni unrhyw gamwedd.

4. ***Cyfeirnod y gŵyn: PCC-18072024-1 - CO/178/27***
    - Ystyried ymddiheuro am unrhyw gyngor anghywir a roddwyd i'r achwynydd.
    - Rhoi adborth i'r swyddog a roddodd yr wybodaeth anghywir.

***Ymateb yr Adran Safonau Proffesiynol***

- Derbyniodd yr Adran Safonau Proffesiynol yr argymhellion a chytunodd i ysgrifennu at yr achwynydd yn uniongyrchol.

5. ***Cyfeirnod y gŵyn: PCC-16082024-1 - CO/00215/24***
    - Mae angen i Heddlu Dyfed-Powys adolygu'r cyfnod cadw mewn perthynas â cheisiadau i ddatgelu ac ymatebion i benderfyniadau sy'n dod o dan gwmpas Cyfraith Clare.

***Ymateb yr Adran Safonau Proffesiynol***

- Ni dderbyniodd yr argymhelliad ond rhoddodd sicrwydd bod gweithredu NICHE wedi datrys y pryderon. Yn ogystal, bydd NICHE yn destun cadw / dileu yn unol â chanllawiau Rheoli Gwybodaeth yr Heddlu. O dan ganllawiau o'r fath, byddai adroddiadau am gam-drin domestig yn cael eu cadw am gyfnod clir o 10 mlynedd o leiaf.

6. ***Cyfeirnod y gŵyn: PCC-19092024-1 - CO/280/24***
    - Dylid cyfeirio'r achos at y Tîm Troseddau Economaidd o fewn Heddlu Dyfed-Powys er mwyn iddynt adolygu'r achos o safbwynt twyll a rhoi gwybod am y penderfyniad i'r achwynydd.

***Ymateb yr Adran Safonau Proffesiynol***

- Derbyniodd yr Adran Safonau Proffesiynol yr argymhellion.

7. ***Cyfeirnod y gŵyn: PCC-23092024-3 - CO/362/24***
   - Cofnodi honiad ychwanegol yn ffurfiol a fydd yn rhoi cyfle i gynnal adolygiad pellach ar ôl i'r gŵyn gael ei delio a hi.

***Ymateb yr Adran Safonau Proffesiynol***

- Rhoddodd yr Adran Safonau Proffesiynol esboniad i'r honiad yn llythyr deilliant yr argymhelliad.

8. ***Cyfeirnod y gŵyn: PCC-11112024-2 - CO/00385/24***
   - I'r awdurdod priodol benderfynu pa gyngor a roddwyd i'r achwynydd
   - Pennu a oedd yr wybodaeth a roddwyd yn ddigon clir i'r achwynydd allu deall pam nad oes unrhyw droseddau

***Ymateb yr Adran Safonau Proffesiynol***

- Derbyniwyd yr argymhelliad a pennwyd ymchwilydd o'r Adran Safonau Proffesiynol i geisio cymorth gan Swyddog Plismona'r Ffyrdd ac aelod o'r tîm Troseddau Gwledig i sefydlu a oes unrhyw droseddau. Bydd y canfyddiadau'n cael eu darparu i'r achwynydd ar ôl delio â'r gŵyn newydd.

9. ***Cyfeirnod y gŵyn: PCC-02122024-1 - CO/00068/24***
   - Dylai penderfyniad honiad 1 fod wedi bod nad oedd y gwasanaeth yn dderbyniol.
   - Nid oedd y llythyr deilliant yn ddigon clir i'r achwynydd allu deall y deilliant ar gyfer pob honiad a wnaed.

***Ymateb yr Adran Safonau Proffesiynol***

- Derbyniwyd yr argymhelliad y dylai honiad 1 fod wedi bod nad oedd y gwasanaeth yn dderbyniol.
- Rhoddwyd ymddiheuriad i'r achwynydd.

**Amryfusedd**

*Yn ystod y broses adolygu, bydd y cyrff plismona lleol yn canfod anomaleddau nad ydynt yn newid y deilliant gan ei fod yn rhesymol ac yn gymesur, ond gellir gwella'r ffordd y mae'r gwasanaeth yn ymdrin â'r gŵyn. Mae'r broses adolygu yn rhoi cyfle i gyrff plismona lleol fynd i'r afael â'r anomaleddau hynny, mewn achosion unigol, gyda'r awdurdodau priodol* IOPC-Focus-19-Reviews (18).pdf

Roedd 20 o adolygiadau yn ystod y cyfnod hwn lle ystyriwyd y gellid bod wedi gwella'r gwasanaeth wrth ymdrin â'r gŵyn.

Themâu a nodwyd fel amryfusedd:

- Amseroldeb ymdrin â'r gŵyn: Deilliant yr ymchwiliad yn cymryd mwy o amser i'w gwblhau, gydag un yn para pedwar mis ac eraill yn para dros chwe mis.

- Diffyg diweddariadau rheolaidd: Dim diweddariadau rheolaidd yn cael eu hanfon at yr achwynydd o fewn cyfnod o 28 diwrnod.
- Oedi wrth gydnabod cwynion: Gydag un yn para 56 diwrnod ac un arall yn para 77 diwrnod cyn iddynt gael eu cydnabod.
- Proffesiynoldeb yr Adran Safonau Proffesiynol: Mae sôn mewn un gŵyn y gellid bod wedi gofalu am yr iaith a ddefnyddiwyd mewn un neges e-bost oddi wrth yr Adran Safonau Proffesiynol at achwynydd.
- Nodwyd oedi o ran y gwasanaeth post: Dim ond unwaith yr wythnos (dydd Mercher) y mae post yn gadael dalfa Dafen.

Mae'r SCHTh hefyd yn cofnodi unrhyw arferion gorau a nodwyd o ganlyniad i gynnal adolygiad.

**Pwyntiau cadarnhaol**

- Cylch gorchwyl wedi'i amlinellu'n glir gan y sawl sy'n ymdrin â'r gŵyn.
- Cynhaliwyd cyfarfod wyneb yn wyneb gyda'r achwynydd.

**Sylwadau cyffredinol**